

Dyffryn Ogwen

Safle: Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau

Dyddiadau'r arolygon: 13/06/2022 a 17/06/2022

Llwybrau trawslun: prif lwybrau troed o amgylch Cwm Idwal, Y Garn, Tryfan a'r Glyderau




Brychan cleisiog mawr (*Phiaris schulziana*) ar y gefn ger Glyder Fach – gwyfyn meicro sy'n brin yn genedlaethol ac sydd wedi'i gyfyngu i ardaloedd ucheldirol.

1. Manylion yr arolwg

Dilynodd yr arolwg llwybrau yn 2022 yr un llwybrau trawslun ag a ddefnyddiwyd yn 2020 a 2021. Rhannwyd rhanbarth Dyffryn Ogwen yn ddwy brif ran ac ymweliadau: roedd un yn cynnwys Cwm Idwal, Y Garn a'r ardal o amgylch y safleoedd hyn (arolygwyd ar 17 Mehefin 2022), ac roedd y llall yn cynnwys Tryfan, y Glyderau a Llyn Bochlwyd (arolygwyd ar 13 Mehefin 2022). Manylir ar y llwybrau hyn ar y map isod (ffigur 1).

Yn ystod yr arolygon hyn, cofnododd yr arsylwyr unrhyw adar a welwyd yn ystod y daith trawslun (yn enwedig arwyddion o weithgaredd bridio), yn ogystal â faint o sbwriel a welwyd ar hyd y llwybrau troed, gweithgaredd mamaliaid, a chyflwr y llystyfiant. Cymerwyd nifer o ddelweddau pwynt sefydlog ar hyd y llwybrau ar gyfer cynnal yr asesiad parhaus o newidiadau gan ddefnyddio cymhariaeth weledol (gweler ffigur 2 am fanylion lleoliadau arolwg penodol).


Amodau'r tywydd: yn ystod arolwg Tryfan a'r Glyderau ar 13 Mehefin, roedd gorchudd cwmwl o 90%, gwynt 15mya o'r gorllewin, a thymheredd rhwng 8°C a 12°C. Roedd gwyntoedd cryf iawn 40mya ac uwch yn chwythu o'r de-ddwyrain yn ystod arolwg Cwm Idwal a'r Garn ar 17 Mehefin ar ben y copa a phen gogleddol Llyn Idwal. Ynghyd â hyn, roedd yn gynnes (20°C) ac roedd yr awyr yn glir (0% gorchudd cwmwl). Nodwyd y gallai cryfderau'r gwynt effeithio ar allu'r arolygwyr i ganfod adar yn ystod yr arolwg; roedd rhywogaethau fel Mwyalchen y Mynydd a Chorhedydd y Waun i'w gweld a'u clywed o hyd, ond mae'n debygol bod yr amodau hyn wedi effeithio ar ganlyniadau'r arolwg i ryw raddau.



Ffigur 1. Llwybrau trawslun ar gyfer arolygon Dyffryn Ogwen wedi'u hamlinellu mewn traciau oren a melyn; mae'r dotiau oren yn dynodi dechrau a diwedd y llwybrau trawslun; ac mae'r sêr coch yn dynodi'r prif gopaon.

2. Canlyniadau

Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r gwahanol arolygon isod. Mae Ffigur 2 yn rhoi trosolwg o leoliadau lle gwelwyd y pethau mwy nodedig, y pwyntiau arolwg allweddol a lleoliadau delweddau pwynt sefydlog. Cyfeirir at y pwyntiau wedi'u rhifo ar y mapiau yn nhestun y canlyniadau gan ddefnyddio cromfachau ac yna'r cod wedi'i rifo, er enghraifft '(P3)'



Ffigur 2. Map o Ddyffryn Ogwen ac ardal yr arolwg yn dangos y llwybrau trawslun a phwyntiau allweddol o'r arolwg: y pwyntiau oren yw manau cychwyn a diwedd yr arolygon, mae'r pwyntiau coch yn nodiadau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau isod, ac mae'r pwyntiau glas yn safleoedd ffotograffiaeth pwynt sefydlog (gweler yr adran isod).

2.1 Adar

Cofnodwyd cyfanswm o 17 o wahanol rywogaethau a 231 o adar unigol ar draws y llwybrau trawslun yn ystod y ddau ymweliad arolwg (gweler tabl 1 isod). Y rhywogaethau mwyaf niferus a gofnodwyd oedd Corhedydd y Waun (cyfanswm o 130 o unigolion), Dryw Bach (39 o unigolion), Gwenoliaid y Bondo (15 o unigolion) a Thinwen y Gogledd (11 o unigolion). Roedd yr adar mwy nodedig yn cynnwys pum Mwyalchen y Mynydd o amgylch Cwm Idwal a'r Garn (gan gynnwys un cyw bach), dau Bibydd y Dorlan ar Lyn Idwal a Llyn Bochlwyd yn seinio larwm / galw rhybudd, a'r pâr o Wyachod Mawr Copog yn nythu ar Lyn Idwal am eu trydedd flwyddyn yn ystod oes yr arolygon hyn (pwynt 2 ar y mapiau yn ffigur 2).

Mae'r cyfanswm o 17 rhywogaeth un yn llai na'r hyn a gofnodwyd yn 2021, a deg yn llai na'r 28 rhywogaeth a welwyd yn arolygon 2020 (gweler ffigur 4). Gwelwyd dwy rywogaeth yn 2022 nad oeddent yn bresennol yn 2021, gan gynnwys Gwenoliaid y Bondo a Hwyaidd Gwylt; i'r gwrthwyneb, roedd tair rhywogaeth a welwyd yn 2021 yn absennol eleni, sef Llwydiaid y Berth, Cudyll Coch a

Llinosod Pengoch. Cofnodwyd rhywogaethau fel Bronwennod y Dŵr, Cwc'wod, Drywod Gwynion a Thelorian Penddu yn arolygon 2020, ond roeddent yn absennol unwaith eto yn ystod ymweliadau arolwg eleni.

O ran effeithiau aflonyddwch ymwelwyr ar adar yr ardal, ni chofnodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol yn ystod yr arolygon hyn, ond amlinellir rhai nodiadau ar y prif arsylwadau isod:

- **Adar o amgylch Llyn Idwal a Llyn Bochlwyd** (pwyntiau 1 a 6 yn ffigur 2): dim ond un Pibydd y Dorlan a welwyd ar Llyn Idwal (pwynt 1) eleni, ac un ar Llyn Bochlwyd (pwynt 6); mae hyn yn is na'r ddau bâr a gofnodwyd yn y lleoliadau hyn yn 2021, ac yn is na'r tri phâr a welwyd yn 2020. Fodd bynnag, mae'n bosibl iawn bod y gwyntoedd cryfion yn ystod arolwg Cwm Idwal ar 17 Mehefin wedi effeithio ar allu'r arolygwyr i ganfod yr adar hyn. Roedd y pâr o Wyachod Mawr Copog yn bresennol unwaith eto ym mhen deheuol Llyn Idwal, gydag aderyn yn deor ar nyth yn y rhan hon o'r llyn. Mae'n dda cadarnhau eu gweithgaredd bridio yma am y drydedd flwyddyn yn olynol, ac nad yw nifer yr ymwelwyr yma wedi cael effaith andwyol ar eu gweithgaredd bridio.
- **Mwyeilch y Mynydd.** Cofnodwyd cyfanswm o bum Mwyalchen y Mynydd eto yn ystod arolygon 2022, sef yr un ffigur ag a welwyd yn 2020 a 2021. Gwelwyd un aderyn ifanc wedi'i fagu gydag oedolion ar lethrau isaf Y Garn (pwynt 5 ar ffigur 2), ac roedd dau oedolyn yn bresennol yn y fan lle mae clogfeini wedi disgyn islaw Twll Ddu (pwynt 3).
- **Adar yn nythu ger llwybrau:** cofnodwyd llai o adar cân yn bridio yn gyffredinol yn 2022, ac nid oedd yr un ohonynt yn amlwg yn nythu'n agos at y prif llwybrau fel y gwelwyd yn 2020. Gellir priodoli'r niferoedd is o adar yn gyffredinol yn 2022 yn rhannol i'r amodau arolwg anodd ar 17 Mehefin, yn ogystal ag effaith y tymor bridio gwael yn 2021 yn ystod gwanwyn hwyr ac oer iawn (ac felly, roedd llai o adar wedi'u magu ac yn gallu dychwelyd i fridio yn 2022).




Corhedydd y Waun (*Anthus pratensis*) gyda gwyfyn y rhos (*Ematurga atomaria*), yn barod i fwydo ei gywion. Y rhywogaeth fwyaf cyffredin a gofnodwyd yn yr ardaloedd ucheldirol fel Dyffryn Ogwen, mae'r rhywogaeth hon yn ddangosydd defnyddiol o lwyddiant bridio ac amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn adar cân yn yr ardaloedd hyn.

Tabl 1. Canlyniadau arolwg adar bridio ar lwybrau trawslun Dyffryn Ogwen.


Enw		Dyffryn Ogwen: Cwm Idwal, y Garn, Tryfan a'r Glyderau			
Math o arolwg		Adar yn Bridio			
Arolygwyr		Ben Porter ac Iago Thomas			
Dyddiadau'r arolygon		13/06/2022 a 17/06/2022			
Rhywogaeth	Enw gwyddonol	Trawslun neu safle			Tystiolaeth o weithgaredd bridio yn ystod ymweliadau
		Cwm Idwal a'r Garn	Tryfan a'r Glyderau	Cyfanswm	
Corhedydd y Waun	<i>Anthus pratensis</i>	67	63	130	Gwrywod / ceiliogod y rhywogaeth yn canu , adar ifanc wedi'u magu ac oedolion yn galw rhybudd
Siglen fraith	<i>Motacilla alba yarellii</i>	1	1	2	
Tinwen y Gogledd	<i>Oenanthe oenanthe</i>	4	7	11	
Cigfran	<i>Corvus corvax</i>	2		2	
Dryw bach	<i>Troglodytes troglodytes</i>	11	28	39	Gwrywod / ceiliogod y rhywogaeth yn canu ac oedolion yn galw rhybudd
Brân Dyddyn	<i>Corvus corone</i>	1		1	
Gwennol y bondo	<i>Delichon urbica</i>	15		15	
Clochdar y Cerrig	<i>Saxicola torquatus</i>	1	1	2	Gwryw / ceiliog y rhywogaeth yn canu
Siglen lwyd	<i>Motacilla cinerea</i>	4	1	5	Gwrywod / ceiliogod y rhywogaeth yn canu
Gwylan y Penwaig	<i>Larus argentatus</i>	1	2	3	
Hwyaid Gwyllt	<i>Anas platyrhynchos</i>	4		4	
Gŵydd Canada	<i>Branta canadensis</i>	4		4	
Gwyach Fawr Gopog	<i>Podiceps cristatus</i>	1		1	
Pibydd y dorlan	<i>Actitis hypoleucos</i>	1	1	2	Galw rhybudd
Mwyalchen y Mynydd	<i>Turdus torquata</i>	5		5	Un aderyn ifanc wedi'i fagu
Ehedydd	<i>Alauda arvensis</i>	2		2	Gwrywod / ceiliogod y rhywogaeth yn canu
Bwncath	<i>Buteo buteo</i>	1	2	3	
Cyfanswm y rhywogaethau		17	9	17	
Cyfanswm		125	106	231	

Cymariaethau o niferoedd ac amrywiaeth adar dros y blynyddoedd

Wrth edrych ar draws tair blynedd yr arolygon hyn, mae'r graffiau isod yn amlinellu cymariaethau yn y ffigurau ar gyfer niferoedd ac amrywiaeth adar. Mae nifer y rhywogaethau a welwyd (17 i gyd) a nifer yr adar a welwyd (231 i gyd) yn is na'r ddwy flwyddyn flaenorol, ac yn sylweddol is o gymharu â 2020. Mae'r ffigur o 231 o adar 36% yn llai na'r 363 a welwyd yn ardal yr arolwg yn 2020, a 23% yn llai na'r 299 o adar a welwyd yn 2021. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar draws yr holl safleoedd ucheldir yn arolygon 2022, ac mae'r rhesymau am y ffigurau is yn fwyaf tebygol oherwydd patrymau tywydd dros y blynyddoedd a'i sgil-efeithiau ar weithgaredd bridio. Rhoddir dadansoddiad llawn o'r newidiadau hyn o flwyddyn i flwyddyn yn yr adroddiad cryno cyffredinol ar gyfer gwaith yr arolwg.



Ffigur 3. Nifer yr adar (h.y. nifer yr adar unigol a gofnodwyd) ar hyd y prif lwybrau trawslun yn 2020 (llwyd golau), 2021 (llwyd tywyllach) a 2022 (llwyd).



Ffigur 4. Amrywiaeth adar (h.y. cyfanswm y rhywogaethau) ar hyd y prif lwybrau trawslun yn 2020 (llwyd golau), 2021 (llwyd tywyllach) a 2022 (llwyd).

2.2 Llystyfiant

Ni nodwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol yng nghyflwr y llystyfiant o gymharu ag arolygon 2021, er nad oedd y ffrwydrad gwyrdd o blanhigion ar hyd llwybrau a safleoedd casglu poblogaidd a welwyd yn ystod cyfnod clo 2020 yn amlwg, fel y gellid disgwyl. Mae'r delweddau pwynt sefydlog (adran 2.6 isod) yn rhoi cymhariaeth weledol o sawl safle ar hyd y llwybrau trawslun i ddangos unrhyw wahaniaethau gweledol ar draws y tair blynedd.

Fel y nodwyd yn 2021, mae rhai rhannau o lwybrau'r ardal yn cael eu herydu yn absenoldeb y llwybrau creigiau caled sydd wedi'u gosod mewn safleoedd poblogaidd megis o gwmpas Llyn Idwal. Mae'r ardaloedd amlwg sydd wedi'u herydu yn cynnwys Y Garn (gweler y llun isod) a'r llwybrau i Fwlch Tryfan o Lyn Bochlwyd. Mae'r llwybrau i fyny'r Garn yn ymledu'n raddol tuag allan ac yn lledu i'r cynefin creigiog, mwsogl sydd hefyd yn cynnal poblogaethau o'r helygen stipylog (*Salix herbacea*). Mae'r planhigion helyg yn fach iawn ac mae'n hawdd eu hanwybyddu, ond gallent gael eu heffeithio gan y sathru parhaus yn rhai o'r ardaloedd ger y llwybr hwn (ar bwynt 4 yn ffigur 2, er enghraifft).



Uchod: y llwybrau troed wedi'u herydu i fyny mynydd Y Garn.

2.3 Sbwriel

Cofnodwyd cyfanswm o 59 eitem o 14 o wahanol fathau o sbwriel ar draws y prif lwybrau a'r ardaloedd arolwg a gwmpesir ar draws Dyffryn Ogwen yn 2022 (gweler tabl 3 isod). Roedd y llwybr trawslun ar hyd Y Glyderau o Lyn Ogwen yn cynnwys y nifer fwyaf o eitemau (24 eitem wahanol o 12 math), sydd efallai'n syndod o ystyried poblogrwydd Llyn Idwal fel man ymgynnull i bobl. I'r gwrthwyneb, roedd glannau'r llyn yn gymharol ddi-sbwriel, gyda'r adran hon o'r arolwg yn cynnwys 12 eitem wahanol o saith math. Roedd copa Tryfan unwaith eto yn fan problemus ar gyfer eitemau sbwriel, roeddent yn aml yn guddiedig rhwng holtau'r creigiau mawr a'r clogfeini yn y lleoliad hwn, sy'n ei gwneud hi'n anodd gweld y sbwriel o'i gymharu â chopa glaswelltog agored. Cofnodwyd

cyfanswm o 23 o eitemau sbwriel o chwe math ar gopa Tryfan. Mae'r cyfanswm o 59 eitem yn is na'r 88 eitem a gofnodwyd yn 2021, ond y mae eto yn sylweddol uwch na'r 11 eitem a ganfuwyd ar draws yr un llwybrau yn 2020. Yn yr un modd, dim ond pedair eitem a ddarganfuwyd yn 2020, o gymharu â'r 19 yn 2021 a 14 yn 2022. Mae hyn yn dangos uchafbwynt mewn niferoedd ar ôl y pandemig, gydag ychydig o sefydlogi eleni o ran gweithgaredd gollwng sbwriel.

Yr eitemau sbwriel mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd bonion sigarêts (15), ac yna papurau melysion (10), hancesi papur (9) a gwastraff organig fel croen oren (5).

Tabl 3. Canlyniadau arolygon sbwriel o amgylch Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau yn 2022.

Enw'r Safle	Dyffryn Ogwen: Cwm Idwal, y Garn, Tryfan a'r Glyderau				
Math o safle	Arolwg sbwriel				
Arolygwyr	Ben Porter gyda chymorth Iago Thomas				
Dyddiadau'r arolygon	13/06/2022 a 17/06/2022				
Math o sbwriel	Nifer				Nodiadau
	Cwm Idwal a'r Garn	Tryfan a'r Glyderau	Copa Tryfan	Cyfanswm	
Hancesi papur	1	5	3	9	
Bonion sigarêts	1	5	9	15	
Caniau metel/alwminiwm	1	1		2	
Papurau melysion	4	2	4	10	
Pecynnau creision		1		1	
Gwastraff organig eraill	1	2	2	5	
Darnau plastig caled		2		2	
Bandiau gwallt		1		1	
Weips gwlyb		1		1	
Poteli plastig			4	4	
Crwyn banana		1	1	2	
Darnau ffoil		1		1	
Eitemau dillad	2	2		4	
Bagiau baw ci	2			2	
Cyfanswm mathau o sbwriel	7	12	6	14	
Cyfanswm eitemau sbwriel	12	24	23	59	

2.4 Anifeiliaid eraill a welwyd a nodiadau o'r arolwg

Geifr mynydd gwylltion: gwelwyd llai o eifr gwylltion yn ystod arolwg 2022 o gymharu â blynyddoedd blaenorol; gwelwyd cyfanswm o 30 o unigolion, gan gynnwys 17 anifail ar hyd Heather Terrace a 13 islaw Y Garn. Mae hyn yn llai na'r cyfanswm o 57 o eifr gwylltion a gofnodwyd ar draws ardal yr arolwg yn 2021, ac yn llai na'r 99 a gofnodwyd yn ystod 2020.

Pryfed: oherwydd yr amodau weddol gynnes yn ystod y ddau ymweliad arolwg, cofnodwyd amrywiaeth dda o rywogaethau o bryfed yn ystod arolygon 2022. Roedd y rhain a welwyd yn cynnwys ieir cochion, dros 30 o Gacwn Llus (*Bombus monticola*) ac amrywiaeth o rywogaethau o ficro-wyfnod: chwe Gweirwyfyn y Gogledd (*Catoptria furcatellus*) ar Y Glyderau, dau Tortrics Tywyll (*Clepsia senecioana*), mwy na 15 Rholydd Llus (*Ancylis myrtillana*) a'r Brychan Cleisiog Mawr sy'n brin yn genedlaethol (*Phiaris schulziana*).



Cofnodwyd llai o eifr gwylltion ym mhob arolwg yn 2022.

Gweithgaredd gwersylla: cofnodwyd cyfanswm o bedair pabell yn ystod yr arolwg, gan gynnwys tair yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Llyn Idwal, ac un ger Llyn Bochlywd. Yn dilyn y ffrwydrad mawr mewn gweithgaredd gwersylla gwyllt o amgylch Llyn Idwal ar ôl y cyfnod clo yn 2020 a 2021, mae arwydd bellach wedi'i osod ger y llyn i annog pobl i beidio â gwersylla ar y safle hwn.



Arwydd ym mhen gogleddol Gwarchodfa Natur Genedlaethol Llyn Idwal i atal gweithgareddau megis gwersylla a defnyddio dronau, sydd wedi dod yn fwy o broblem mewn ardaloedd fel y safle hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

2.5 Lefelau pori

Er na chawsant eu monitro'n benodol yn ystod yr arolygon, mae cyflwr cynefinoedd ar hyd y llwybrau trawslun yn chwarae rhan sylweddol mewn ffurfio niferoedd ac amrywiaeth y planhigion, y pryfed a'r adar sy'n bodoli yn yr ardaloedd hyn. Mae ardal Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Cwm Idwal ei hun wedi gweld gostyngiad yn y dwysedd pori gan ddefaid ers ei dynodi'n ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) yn y 1990au. Mae hyn bellach wedi'i adlewyrchu yn lledaeniad y grug, llus, planhigion blodeuol a'r gweiriau yn yr ardal o amgylch y llyn. Ar draws y rhan fwyaf o'r ardaloedd eraill a gwmpesir yn yr arolwg hwn (fel ardal llwyfandir copa'r Glyderau, Cwm Tryfan a'r tir o amgylch Y Garn), pori gan ddefaid yw'r prif ffactor wrth bennu cyflwr y cynefin, sy'n cynnwys glaswelltir lled-naturiol yn bennaf ac ychydig o blanhigion blodeuol fasnwlaid. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn mewn cynefinoedd yn y casgliad o adar a gofnodwyd yn ystod yr arolwg, a hynny o ran amrywiaeth a niferoedd.




Tormaen Serennog (*Saxifraga stellaris*- *chwith*) a Bysedd y Cŵn (*Digitalis purpurea*).



Tormaen Mwsoglyd (*Saxifraga bryoides*) yn Nhwl Du.

2.6 Delweddau llwybr pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr y llystyfiant

Ar gyfer adroddiad eleni, dangosir delweddau a gymerwyd dros gyfnod o dair blynedd ochr yn ochr â'i gilydd ar gyfer pob pwynt i ganiatáu cymhariaeth.



Lleoliadau'r delweddau (mae'r rhifau'n cyfeirio at y map yn ffigur 2 ar ddechrau'r adran): **y golofn chwith** ar ddechrau'r llwybr i Llyn Idwal (**P1**), a'r **golofn dde** ym mhen deheuol Llyn Idwal (**P3**).



Lleoliadau'r delweddau: uchod, ar ddechrau'r llwybr i Lyn Idwal (P1 yn ffigur 2).



Lleoliadau'r delweddau: **y golofn chwith** wrth esgyn tuag at sgri clogfeini Twll Ddu (P4), a'r **golofn dde** wrth ddringo i fyny wyneb deheuol Y Garn (P5).



Lleoliadau'r delweddau: **y golofn chwith** wrth ddod i lawr o'r Garn i Llyn Idwal (**P6**), a'r **golofn dde** ar hyd ymyl Llyn Idwal (**P7**).



Lleoliadau'r delweddau: **y golofn chwith** ar ddechrau'r esgyniad i fyny Tryfan (**P8**), a'r **golofn dde** wrth ddod i lawr o'r Gribin tuag at Lyn Bochlwyd (**P10**).



Lleoliadau'r delweddau: **y rhes uchaf** wrth edrych draw i Lyn Ogwen o waelod ochr ogledd-ddwyreiniol Tryfan (**P9**), a'r **ddwy res isaf** wrth ddod i lawr o Lyn Bochlwyd tuag at Lyn Ogwen (**P11**).